Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 84A(11)(a) a 84A(13)(b) o Ddeddf Tai 1985, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U D R A F F T

2016 Rhif (Cy.)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn yn diwygio Atodlen 2A i Ddeddf Tai 1985. Mae Atodlen 2A yn rhestru'r troseddau difrifol sy'n ymwneud â'r seiliau absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol y darperir ar eu cyfer gan adran 84A o Ddeddf Tai 1985 (tenantiaethau diogel), a sail 7A o Ran 1 o Atodlen 2 i Ddeddf Tai 1988 (tenantiaethau sicr). Mae adrannau 1 a 2 o Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn cyflwyno troseddau sy'n ymwneud â chaethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur o dan orfod neu lafur gorfodol, a masnachu pobl yn y drefn honno. Mae'r Gorchymyn hwn yn ychwanegu'r troseddau hyn at Atodlen 2A i Ddeddf Tai 1985.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

Gorchymyn drafft a osodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adrannau 84A(11)(a) a 84A(13)(b) o Ddeddf Tai 1985, i'w gymeradwyo drwy benderfyniad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU DRAFFT

2016 Rhif (Cy.)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016

Gwnaed	***
Yn dod i rym	*16 Chwefror 2016*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 84A(11)(a) o Ddeddf Tai 1985(**1**).

Yn unol ag adran 84A(13)(b) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddo drwy benderfyniad.

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Tai 1985 (Diwygio Atodlen 2A) (Troseddau Difrifol) (Cymru) 2016 a daw i rym ar 16 Chwefror 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Deddf Tai 1985

2.—(1) Mae Deddf Tai 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(**1**) 1985 p. 68. Mewnosodwyd adran 84A gan adran 94(1) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 (p. 12).

(2) Yn Atodlen 2A(**1**) (sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol: troseddau difrifol) ar ôl paragraff 29 mewnosoder—

"*Modern slavery*

29A An offence under either of the following sections of the Modern Slavery Act 2015(**2**)—

(a) section 1 (slavery, servitude and forced or compulsory labour),

(b) section 2 (human trafficking)."

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad

(**1**) Mewnosodwyd Atodlen 2A gan adran 94(2) o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014 ac Atodlen 3 iddi.

(**2**) 2015 p. 30.